



05 Awst 2016

Annwyl Swyddogion Cyfrifol

Cyhoeddi'r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig

Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru'r Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig (y Polisi) ar 5 Awst 2016. Gwahoddwyd cyrff dyfarnu ac eraill i gyflwyno sylwadau ar y polisi arfaethedig drwy broses ymgynghori ar-lein a oedd ar agor am gyfnod o bum wythnos rhwng 13 Mai ac 17 Mehefin 2016. Yn sgil adborth o'r ymgynghoriad, diwygiwyd y Polisi lle y bo'n briodol ac mae adroddiad yn dadansoddi'r ymgynghoriad sy'n amlinellu ein hymateb i'r materion a godwyd wedi cael ei gyhoeddi hefyd.

Diben y Polisi yw rhoi canllawiau i gyrff dyfarnu a phartïon eraill sydd â diddordeb ar y rhesymeg dros gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'r broses o gyfyngu ar gymwysterau. Mae'n bosib y byddwn yn penderfynu cyfyngu ar gymhwyster, lle y gwelir yn ddymunol i gyflawni ein prif nodau er mwyn osgoi anghysondebau rhwng gwahanol ffurfiau ar yr un cymhwyster ac er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i ddewis rhwng cyrff dyfarnu gwahanol neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau. Mae'r Polisi'n darparu rhagor o fanylion ar sut y gallwn gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol drwy naill ai gomisiynu un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster newydd, neu drwy ddewis pa gymhwyster neu gymwysterau i'w gymeradwyo neu eu cymeradwyo o'r rheini sydd wedi eu cyflwyno i ni gan gyrff dyfarnu.

I fod yn gydnaws â chyhoeddi'r Polisi, mae mân ddiwygiadau sy'n amlinellu y gallwn benderfynu cyfyngu ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol wedi eu gwneud i'r Polisi Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol sydd ar gael yma.

Mae'r Polisi a'r adroddiad yn dadansoddi'r ymgynghoriad i'w cael ar wefan Cymwysterau Cymru yma. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau yn ymwneud â'r Polisi, cysylltwch â'r tîm Polisi Strategol yn policy@qualificationswales.org.

Cofion,

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701



www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Laura Porter

Pennaeth Polisi Strategol